Un saer sydd yn y plwy' yn awr, a hwnnw yn bensaer. Mae yn hyfedr ym mhob gwaith coed, a chyda'r droell. Gweler ei waith ar Eglwys y Plwy', capeli Cwrtycadno, Caio, Bethel, Esgair Dawe a Phlasty Llystroyddin. Mae yn "sa'r gwlad" heb ei drech hefyd.[6]

Ailagorwyd y capel ar Dachwedd 15ed a'r 16eg, 1910, gyda'r Parchedigion J. Towyn Jones ac R. Gwylfa Roberts yn gwasanaethu. Methodd y trydydd, sef y Parchedig Ben Davies, Pant-teg â bod yn bresennol. Daeth cynulleidfaoedd lluosog ynghyd a diolchwyd am gapel hardd gyda'r ddyled eisoes wedi ei chlirio.

Casglwyd cyfanswm o £372-19-0 ½ tuag at y draul, yn cynnwys cyfraniadau aelodau a chyfeillion Esgairdawe, ac aelodau capeli Ffaldybrenin, Rhydcymerau a'r Wern. Yn ogystal â'r gwelliannau a wnaed, cafwyd nifer o roddion i harddu'r adeilad. Dyma restr ohonynt:

| | | |
|---|---|---|
| Mr. D. Nun Davies, Llambed | — | Deg llath o 'Lino' i'w osod ar lawr y sedd fawr a'r pulpud. |
| Mrs. Roberts, King's Head, | — | Dwy lamp i'w gosod ar y pulpud. |
| Mr. Morgan Richards | — | Dwy gadair. |
| Mr. Walter Davies, | — | Defnydd i addurno'r pulpud. |
| Mr. Timothy Richard, | — | Dwy gadwyn i hongian lampau o'r nenfwd. |
| Mr. Daniel Jones, Fron, | — | Dau flwch casglu. |
| Miss Maggie Jones, Troed-y-bryn | — | Lliain i'w osod ar fwrdd y sedd fawr. |
| Miss May Jones, eto | — | Costrel dŵr a gwydr. |

Diddorol yw cyfeirio at gyfarfodydd dathlu canmlwyddiant y capel hwn ar yr 2ail a'r 3ydd o Dachwedd, 1944. I ddechrau, cynhaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch gyda'r Parchedig Eurfyn Morgan, Abergwaun yn pregethu. Diolchwyd am ganrif o addoli yn y capel yn ogystal ag am fendithion tymhorol. Yna, drannoeth, i ddechrau'r ail ganrif, ymgasglodd tyrfaoedd ynghyd, – yn eu mysg wyrion ac wyresau hen deulu'r Ffydd a fu'n addoli yno. Daethant o bob rhan o'r wlad i gydnabod aberth y tadau a'r teidiau y mamau a'r neiniau oedd â'u hysbrydoedd ar dân wrth baratoi lle o addoliad i'w plant. Dyma gyfle i werthfawrogi'r cyfan ac i geisio addo na fyddai eu haberth yn ofer.

Llywydd oedfa'r prynhawn oedd y Parchedig J. Washington Jones, B.A., Ficer Eglwysilan. Darllenwyd rhannau o'r Gair gan

y Parchedig J. Samuel Jones, B.A., B.D., curad Llandybie. Offrymwyd gweddi gan y Parchedig E. Tawe Jones, ficer Llangwyryfon. Rhoddodd y gweinidog, y Parchedig Giraldus Jones hanes yr Achos oddi ar y cychwyn a bu'r Parchedig D. Williams, B.A., cynweinidog, yn rhoi hanes y pymtheg mlynedd o'i weinidogaeth ef. Yn dilyn, cafwyd gair o atgofion y Parchedigion J. Washington Jones, E. Tawe Jones, J. Samuel Jones a D. Derwenydd Morgan, pedwar a godwyd i'r weinidogaeth yno, a gair hefyd gan Mr. Arthur L. Jones, B.A., Llundain fechan, peiriannydd gyda'r awyrlu. Bodlonwyd y gynulleidfa fawr gan eiriau dethol y rhai a gymerodd ran. Gollyngwyd drwy weddi gan yr Hybarch T. Gwydrim Davies, Pannau. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan. M. Olwen Davies, Esger-wen; M. Eunice George ac S. Agnes George, Bryndafydd ucha a chodwyd y gân gan Joshua Jones, Glantawe. Yn oedfa'r hwyr, bu'r Parchedig J. Dyfnallt Owen yn traethu gyda brwdfrydedd i dorf o wrandawyr eiddgar. Rhoddodd ei neges gref anogaeth i gychwyn yr ail ganrif yn y capel hwn.

Dyma gofnodion diddorol yn ymwneud â gwelliannau eraill:

| | | |
|---|---|---|
| *1949* | : | Gosod gwresogydd a phibellau dŵr yn y capel. Atgyweirio mur y fynwent. |
| *Haf, 1958* | : | Aildoi ffrynt y capel gan Mr. D.J. Jones, Llambed. |
| *1956 – 58* | : | Atgyweiriwyd y festri gan Mr. Douglas Davies, Llambed. |
| *1965* | : | Gosodwyd dau wresogydd trydan yn y capel gan Mr. W.J. Evans, Godre'r Glyn, Cwm-ann. |
| *1967* | : | Adnewyddu'r capel, sef peintio ac addurno: |

Credir na wnaethpwyd llawer o waith ychwanegol yn y capel oddi ar 1910, ar wahân i gadw popeth yn lân a chymen. Nid oedd angen cynllunydd na phensaer y tro hwn ac ymddiriedwyd y gorchwyl i Mr. T.I. Jones, Llanymddyfri. Casglwyd at y draul gan y gweinidog, y Parchedig Giraldus Jones, – y swm o £1,149-13-0.

Tra datblygai'r gweithgareddau, symudwyd i'r festri i gynnal cyfarfodydd y Sul. Roedd yr awyrgylch yn gartrefol, – onid 'hawdd cynnau tân ar hen aelwyd?' Deuai nosweithiau'r cyfarfodydd diwylliadol a chyrddau gweddi yn fyw i'r cof. Addolwyd yno am bum mis, ac wedi cydweithio hapus, cwblhawyd y gwelliannau a phenderfynwyd dathlu ailagor y



*Dydd Ailagor y Capel, 1967*

Tŷ. Y diwrnod hanesyddol oedd Dydd Sul, Mehefin 11eg, 1967. Ymgasglodd cynulliad lluosog o flaen y capel. Agorwyd y drws gan yr aelod hynaf, Mr. Thomas L. Jones, Llundain fechan gynt. Braint oedd cael ailddychwelyd i'r capel ar yr awr arbennig honno. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parchedig Giraldus Jones a phregethwyd gan y Parchedig D. Morlais Jones, Ffair-fach, ar destun amserol, – 'Mor hawddgar yw Dy bebyll Di, O Arglwydd y lluoedd'. Yr organyddion oedd M. Olwen Davies, Maesteile a M. Eunice Williams, Tegfryn. Teimlai pawb mai 'da oedd bod yno'. Cyn oedfa'r hwyr, cafwyd te'r dathlu yn y festri. Bu'n 'ddydd o lawen chwedl yn Seion'.

Cliriwyd y draul yn anrhydeddus fel ym 1910 a pharatowyd Adroddiad arbennig i gofnodi'r achlysur. Adnewyddwyd y Beibl yn ddestlus gan gwmni 'Remploy', Ystradgynlais, am dâl bychan o £2-7-0. Ceir canmoliaeth ac edmygedd o'r gwaith gan nifer o bregethwyr.

*Hydref, 1970* : Bu dau o'r aelodau, sef T. John Davies, Esgerwen ac Elwyn Williams, Tegfryn yn gweithio o'r golwg yn nenfwd y capel. Sylweddolwyd fod pryf-pren yn difetha'r coed yno. Chwistrellwyd hylif at ladd pryfed arnynt a bu'n effeithiol.

*1970* : Gosodwyd drws newydd i'r adeilad gan Mri. J.D. Lloyd a'i Feibion, Glan-rwyth, Pumsaint.

*Hydref, 1971* : Yn wyneb y ffaith nad oes ceidwad yn byw yn Nhŷ'r Capel oddi ar 1956, penderfynwyd gwerthu pethau gwerthfawr megis Hen Gwpanau a Siwg Cymundeb, a Lampau Olew. Cafwyd pris rhesymol amdanynt.

*Hydref, 1985* : Aildoi cefn y capel gan y Brodyr Thorley, Maesyrhenarth.

*Haf, 1987* : Gwnaed llawer o atgyweiriadau gan Mr. J. Denzil Williams, Llansawel, – selio a rhoi 'Weather Shield' y tu allan i dalcen pella'r capel; ailblastro a lliwio'r mur y tu mewn; gosod ffenestr newydd a blociau pren ar un ale, peintio'r drysau a phedair ffenestr y ffrynt.

Erbyn heddiw, mae cadw'r capeli mewn cyflwr gweddol yn faich ar gynulleidfaoedd bychain. Clywir yn gyson am gapeli'n cau, yn cael eu gwerthu a'u defnyddio at ddibenion eraill. Gwaeth na hynny yw'r ffaith fod nifer ohonynt yn cael eu dymchwel er mwyn rhoi lle i ddatblygiadau modern. Golygfa drist yw honno pan gofiwn am aberth hynafiaid.

Ymddangosodd hysbyseb, sy'n dangos cyflwr crefyddol y wlad, yn y *Tyst,* Medi 29ain, 1989 ynglŷn â sefyllfa capel arbennig yn Ne Cymru. Dyma ran o'r hysbyseb hwnnw:

"Cyfarfod arbennig i ddwyn yr Achos i ben".

Gallwn dybied nad oedd modd osgoi'r sefyllfa hon yn wyneb difaterwch ein dyddiau. Anghofiwyd amcan a gwerth safon uchel y penseiri a'r crefftwyr a fu'n gyfrifol am adeiladu'r capeli, ac o ganlyniad i'r newidiadau yn natur ein cymdeithas, gwelir dirywiad ar bob llaw. Ai rhywbeth a berthyn i'r gorffennol yw 'oes aur y capeli'? Tybed beth fydd tynged nifer ohonynt cyn diwedd yr ugeinfed ganrif.

[1]*Y Tyst,* Mehefin 8fed, 1989, t. 1.
[2]*Y Dysgedydd,* 1876, Erthygl J.R. Kilsby Jones, t. 299.
[3]*The Story of Carmarthenshire,* Vol. 2, A.G. Prys-Jones, 1972, t. 432.
[4]Llythyr, dyddiedig 20fed, Ebrill, 1988 o'r 'General Register Office, St. Catherine's House, 10, Kingsway, London'.
[5]Rhan o Anerchiad D. Myddfai Thomas yn Adroddiad 1910.
[6]*Cerddi Ysgol Llanycrwys,* Dan Jenkins, 1934, t. 126.

## VIII

# DOGFENNAU CYFREITHIOL


Wrth ymdrin â hanes Capel neu Eglwys, naturiol yw cyfeirio at weithredoedd cyfreithiol yr adeilad a'r gladdfa. Cedwir y dogfennau pwysig parthed Capel Esgairdawe yn ddiogel ym Manc y 'National Westminster' yn Llambed. Gan fod yna nifer dda o dudalennau enfawr sy'n cynnwys manylder eithriadol, digon yw dethol rhai rhannau gwerthfawr ohonynt. Yn ôl y maen a welir uwchben drws y capel presennol, fe'i agorwyd ym 1844, ond ni chyflawnwyd y gweithredoedd hyd 1845.

Dyma ran o'r weithred:

> Dated the twenty fourth day of March, 1845 Lease for Ninety Nine Years of a piece or parcel of land in the Parish of Pencarreg, in the County of Carmarthen, upon which a Chapel to be called Eskerdawe is now building for the use of the Religious Society or Church of Protestant Dissenters called Independents –
>
> Yearly Rent: £0-2-6
>
> John Johnes, Esquire and Messrs James Davies and Evan Davies
>
> to
>
> The Revd. Rees Jones, Minister of the Gospel and others, Daniel Price, Talley and Llandeilo.
>
> Enrolled in Her Maty's High Court of Chancery, the thirteenth day of August in the year of our Lord, 1863.
>
> *This Indenture* made the twenty fourth day of March in the year of our Lord one thousand eight hundred and forty five *Between John Johnes* of Dolecothy in the County of Carmarthen Esquire of the first part *James Davies* and *Evan Davies* both of Cwmdawe in the Parish of Pencarreg in the said County, farmers of the second part and *The Reverend Rees Jones* of Erwyon in the Parish of Llanycrwys in the said County, Minister of the Gospel, *Thomas Morgan* of Storom in the Parish of Pencarreg aforesaid, *David Jones* of Gwarcoed in the same Parish, *William Evans* of Tredomen in the same Parish, *Evan Jones* of Cwmcanol in the same Parish, *Morgan Morgans* of Maestile in the same Parish, *Evan Jones* of Pantyfid in the same Parish, *John Morgans* of Rhydlydan, in the Parish of Conwil Gaio in the said County, *William Jones* of Maesygwiel in the same Parish, *William Morgan of* Tynewydd in the same Parish, *David Christmas* of

Fron in the same Parish and *Lewis Thomas* of Bryndafydd in the Parish of Llansawel, in the said County, farmers of the third part . . . *Whereas* the said John Johnes, party hereto hath agreed to grant a Lease of . . . All that piece and parcel of land upon which a Chapel or Meeting House is now in the Course of Erection being part and parcel of the Messuage Farm and lands Commonly Called and known by the name of *Cwmdawe* . . . has already been marked out and contains by measurement One Rood and Thirty Six Perches or thereabouts is bounded in the South East side thereof by the Highway leading from the Town of Llansawel in the said County to the Town of Lampeter in the County of Cardigan and on all other sides thereof by the said Farm and lands called *Cwmdawe* . . . *To Have and To Hold* . . . for the full term of Ninety Nine Years to be computed from the Twenty Ninth day of September now last . . . the Yearly Rent of *Two Shillings and Six Pence* of lawful British money Clear of all Rates Taxes and deductions whatsoever . . . the said Chapel . . . to be used for the worship and service of *Almighty God* . . . and Infant Baptism And also for the purpose of keeping a School therein to teach and Instruct young persons in the principles of Religion . . . *And* . . . that they the said Parties hereto of the third part . . . shall cause or permit a *Dwelling House* and stable . . . to be built . . . and occupied as a residence by a Person to clean air and look after the said Chapel and . . . stable . . . and shall permit such

*Lleoliad y Capel gyda'r Hen Fynwent o'i gwmpas*




part . . . of land as shall not be built on to be used as a *Burial Ground* for the members of the said Religious Society . . . And it is hereby declared and agreed that it shall be lawful for the said parties hereto of the third part . . . to direct such alterations additions reparations and ammendments to be made in or to the said Chapel Dwelling House and stable . . . And it is hereby further declared and agreed that the monies which shall be wanted in addition to the voluntary Subscriptions to be obtained for that purpose as well as for the benefit and support of the Minister . . . be advanced by the said Trustees and the other persons who shall be members of the said Society.

Arwyddwyd y ddogfen gan aelodau'r tri pharti a oedd yn gysylltiedig â hi.

Ym 1941, cyn i'r cyfnod penodedig, sef cant namyn un o flynyddoedd ddod i ben, profwyd haelioni a charedigrwydd Teulu'r Johnes, Dolau Cothi. Cyflwynwyd y capel a'r gladdfa i ymddiriedolwyr yr Eglwys. Dyma ran o'r ddogfen gyfreithiol:


*This CONVEYANCE AND DECLARATION OF TRUST* made this twelfth day of March One thousand nine hundred and forty one *BETWEEN HERBERT THOMAS CHARLES LLOYD – JOHNES M.C.* of Dolaucothy . . . of the first part *THE REVEREND GIRALDUS*

*Y Fynwent Newydd, yr ochr arall i'r heol*



*JONES* of Maesybedw Ffaldybrenin in the parish of Llanycrwys in the County of Carmarthen of the second part and *THOMAS THOMAS* of Maestyle . . . *THOMAS ELIAS DAVIES* of Esgairwen . . . *WILLIAM MORGAN JONES* of Cwmdawe . . . *THOMAS LEWIS JONES* of Llundain . . . *THOMAS JONES* of Gwarcoed . . . *JOSHUA JONES* of Glantawe . . . *JAMES MORGAN* of Rhydfallenganol . . . *WILLIAM JONES* of Penrhiw . . . *THOMAS HUGHES* of Pyllau . . . *DAVID EVANS* of Blaengofuarth . . . *WILLIAM MORGAN* of Maesygwiail . . . (herein called the Trustees) of the third part . . . the Donor doth hereby convey unto the Trustees *ALL THAT* plot piece or parcel of ground having an area of 2 Roods 27 Perches or thereabouts . . . *TOGETHER* with the Chapel and other buildings erected thereon . . . subject to the recited Lease upon the Trusts hereinafter expressed . . . (1) To permit the premises to be used occupied and enjoyed as a place for the public worship of God and for preaching the Gospel of the Lord Jesus Christ . . . (2) To permit to officiate on the premises as Minister such person or persons only as shall be of the Congregational Denomination and shall practise infant-baptism . . . no person shall be permitted to officiate . . . on the premises who shall be guilty of immoral conduct or shall cease to be of the Congregational Denomination . . . (3) To permit such occasional Ministers or other persons to officiate on the premises as the Minister or . . . the Deacons of the Church . . . shall appoint (5) The Trustees shall . . . under the direction of the Church permit the premises to be repaired altered enlarged or taken down and rebuilt . . . and shall . . . permit the erection of additional buildings (10) (For personal interest only) Persons may be appointed as Trustees but not jointly with any Union. (a) The number shall not be reduced to less than 5 and upon any new appointment the number shall if possible be made up to at least 10. (b) No person shall be appointed a Trustee who is not a member of a Congregational Church . . . The said Reverend Giraldus . . . hereby declares his approval . . . on behalf of the Church *AND* the Trustees hereby covenant with the Donor to put a suitable memorial to denote that the said Chapel was given in the memory of the Johnes Family and the late Lieutenant General Sir James Hills-Johns, V.C., G.C.B., the wording of such memorial to be agreed with the Donor or other the Owner for the time being of Dolaucothy House aforesaid such memorial to be erected within 6 months of the date hereof *AND* the Donor doth hereby release the Trustees or other the person or persons liable for the payment thereof from all rent payable under the said Lease as from the twenty ninth day of September now last past *AND* doth hereby acknowledge the right of the Trustees to production and to delivery of copies of the documents of title mentioned in the Schedule hereto and doth hereby undertake for the safe custody thereof.

*IN WITNESS* whereof the said parties to these presents have hereunto set their respective hands and seals.





*Y Maen ar y Mur*

Yn ôl y cytundeb, gosodwyd maen ar y mur i nodi'r digwyddiad a chydnabod y rhodd.

Ym 1953, cyflwynwyd darn o dir i'w ddefnyddio fel mynwent newydd. Dyma ran o'r weithred gyfreithiol honno:

> *This Conveyance* is made the twenty-ninth day of June one thousand nine hundred and fifty three *BETWEEN THOMAS LEWIS JONES*

*Y Fynwent Newydd*



of Llundain fechan Esgerdawe . . . of the one part and *GERALDUS JONES* of Maesybedw Ffaldybrenin . . . Minister of the Gospel *THOMAS JONES* of Gwarcoed Rhydcymerau . . . *JOSHUA JONES* of Glantawe Esgerdawe . . . *WILLIAM MORGAN JONES* of Cwmdawe Esgerdawe . . . *WILLIAM MORGAN* of Maesygwiail Esgerdawe . . . *THOMAS JOHN HUGHES* of Pyllau *Esgerdawe* . . . THOMAS ELIAS DAVIES of Maesteile Rhydcymerau . . . *DAVID EVANS* of Blaengofuarth Esgerdawe . . . (all being the present trustees of "Capel Esgerdawe"). *NOW THIS DEED WITNESSETH as follows:* . . . in consideration of the sum of Five pounds paid by the Trustees to the Vendor . . . the Vendor as beneficial owner hereby conveys unto the Trustees *ALL THAT* plot piece or parcel of land situate in the village of Esgerdawe . . . having a frontage of Forty five feet to the main road and extending backwards therefrom One hundred and sixty five or thereabouts . . . *TO HOLD* the same . . . as a site for a burial place and for no other purposes whatsoever. The Trustees . . . will at their own costs and expense . . . erect a suitable fence hedge or wall along the boundaries of the property hereby conveyed separating the same from the property retained by the Vendor and will forever after maintain the said fence . . . in good and properly repaired . . .

No building shall be erected and no burials shall be allowed within thirty five feet of the Classified Road . . .

*IN WITNESS* whereof the parties hereto have hereunto set their hands and seals.

**Ymddiriedolwyr y Capel**

Yn ogystal â dogfennau cyfreithiol ynglŷn â'r capel a'r mynwentydd, ceir dogfennau sy'n ymwneud â phenodiad Ymddiriedolwyr.

Dyma enwau'r rhai oedd yno ym 1845, ynghyd â'u cyfeiriadau. Ffermwyr oedd pob un ohonynt wrth eu galwedigaeth:

Thomas Morgan, Storom
David Jones, Gwarycoed
William Evans, Tredomen
Daniel Williams, Brynrysgol
Evan Jones, Cwmcanol
Morgan Morgans, Maestile
Evan Jones, Pantyfid
John Morgans, Rhydlydan
William Jones, Maesygwiel
William Morgan, Tynewydd
David Christmas, Fron
Lewis Thomas, Bryndafydd

Ceir enwau'r uchod yn y ddogfen gyfreithiol, dyddiedig Mawrth 24ain, 1845 pan gyflawnwyd y Brydles ar y capel presennol. Diau eu bod wedi'u hethol yn Ymddiriedolwyr cyn symud o'r Hen Dŷ Cwrdd.

Erbyn 1879, dim ond un o'r rhestr uchod oedd yn aros. Yn ôl y rheolau, ni chaniateir i nifer yr Ymddiriedolwyr fod o dan bump, a phan etholir rhai newydd, rhaid eu gwneud i fyny i ddeg o leiaf. Dyma gopi o ran o'r ddogfen:

*Dated: 25th November 1879*
Mr. Evan Jones
to
Mr. David Morgans and others
Appointment of new Trustees of
Eskerdawe Chapel in the Parish of Pencarreg
in the County of Carmarthen

*Old and Continuing Trustees*
Evan Jones, Lletywenol (gynt o Bantyfid)

*New Trustees chosen and appointed*

| | |
|---|---|
| David Morgans, Bryndifyr | Farmer |
| Evan Jones, Cwmtrebeddau | Farmer |
| John Jones, Caemawr | Farmer |
| Thomas Thomas, Maestile | Farmer |
| John Morgans, Eskerdawe | Farmer |
| William Morgan, Rhydlydan | Farmer |
| Thomas Williams, Scyrwen | Farmer |
| James Jones, Pwlleroirich | Farmer |
| John Jones, Melincwm | Miller |
| Henry Thomas, Tanffordd | Farmer |
| John Williams, Brynrysgol | Farmer |
| Thomas Lewis, Rhydfallen ganol | Farmer |

Ymhen ugain mlynedd 'roedd angen ethol rhai newydd eto, am mai pedwar oedd ar ôl yn fyw.

Memorandum of the choice and appointment of New Trustees . . . at a meeting duly convened and held . . . on the Twenty-second day of June one thousand eight hundred and ninety nine.

*Chairman:*

Rev. Evan Evans congregational minister Lampeter. Names and descriptions of all the Trustees in whom the . . . chapel and premises now become legally vested

*First. Old and continuing Trustees*

| | |
|---|---|
| John Morgans, Esgairdawe | Farmer |
| James Jones, Rhydfallen fach | Labourer |
| John Williams, Brynyrysgol | Farmer |
| Thomas Williams, Blaenceiment | Farmer |

*Second. New Trustees now chosen and appointed*

| | |
|---|---|
| John Jones, Caemawr | Farmer |
| William Lewis, Tredomen | Farmer |
| Thomas Jones, Maesyrhenarth | Farmer |
| Thomas Thomas, Maestile | Farmer |
| John Morgans, Gwarcoed | Farmer |
| Charles Williams, Pantmawr | Farmer |
| Morgan Jones, Llundain | Farmer |
| Abel Thomas, Bryndifyr | Farmer |
| Evan Jones, Cwmtrebeddau | Farmer |
| Evan Morgan, Blaencwm | Farmer |
| David Morgan, Maesygwiail | Farmer |

Arwyddwyd y ddogfen gan y cadeirydd, Evan Evans yng ngŵydd William Morgan, Tynwain, Llan-y-crwys a John Morgan Tan-y-ffordd, Caio.

Aeth dros ddeng mlynedd ar hugain heibio cyn cael etholiad arall. Nid oedd yn rheidrwydd ei gynnal y pryd hwnnw chwaith, gan fod pump yn parhau yn y swydd. Pa fodd bynnag, dyma'r canlyniadau:

Memorandum of the choice and appointment of New Trustees . . . on the twenty sixth day of November One Thousand nine hundred and thirty

Chairman: Rev. Giraldus Jones,
Rhosybedw, parish of Llanycrwys

*First. Old and continuing Trustees*
Thomas Williams, Blaenceiment
Thomas Jones, Maesyrhenarth
Thomas Thomas, Maestyle
John Morgans, Gwar-coed
Abel Thomas, Bryndyfyr

*Second. New Trustees now chosen and appointed*

| | |
|---|---|
| John Morgan, Tanffordd, parish of Caio | Farmer |
| William Jones, Esgerwen uchaf parish of Pencarreg | Farmer |
| James Morgan Rhydfallenganol parish of Pencarreg | Farmer |
| Joshua Jones Glantawe parish of Pencarreg | Blacksmith |
| Thomas Lewis Jones Llundain parish of Caio | Farmer |
| Thomas Jones Gwarcoed parish of Pencarreg | Farmer |
| William Morgan Jones Cwmdawe parish of Pencarreg | Farmer |
| Thomas Elias Davies Esgerwen parish of Llansawel | Farmer |
| David Evans, Blaengofuarth parish of Llansawel | Farmer |
| Thomas John Hughes Pyllau parish of Llansawel | Farmer |
| William Morgan Maesygwialissa parish of Caio | Farmer |

Y tro hwn, arwyddwyd y weithred gan y cadeirydd, Giraldus Jones; Thomas Thomas, Maestyle ac Abel Thomas, Bryndifyr, trysorydd ac ysgrifennydd y capel.

Wedi ysbaid o ddeugain mlynedd, nid yw'n syndod fod y mwyafrif o'r Ymddiriedolwyr wedi ymadael â'r fuchedd hon, a bod gwir angen am fynd ati eto i geisio llanw'r bylchau. Dyma rai o'r manylion a welir ar y ddogfen ddiwethaf:

> 6th December 1970
> Memorandum
> of
> the choice and Appointment of New
> Trustees of Esgerdawe Congregational
> Chapel with the buildings lands hereditaments
> and premises belonging thereto...
> at a meeting... held for that purpose...
> on the Twenty fifth day of October
> One Thousand nine hundred and seventy
> the Reverend Giraldus Jones... having been
> elected Chairman of the said meeting...
>
> *Names and Residence of continuing Trustees*
> Reverend Giraldus Jones Ffaldybrenin Farmers Minister of Religion
> William Morgan Jones Cwmdawe
>
> *Names and Residence of New Trustees*
> David John Davies Heol Hathren Cwmann
> Thomas Griffiths, 4 Railway Terrace Cwmann
> Thomas John Davies Esgerwen Rhydcymerau
> Miss Mary Olwen Davies Maesteile Rhydcymerau
> Meurig Evans Llundain Fach Esgerdawe
> Evan John George Bryndafydd Esgerdawe
> Hugh John Hughes Esgerdawe Cwmann
> David Lewis Jones Blaengofuarth Esgerdawe
> Morgan John Jones Ger-y-bont Pumsaint
> Thomas Ivor Jones Cwmdawe Esgerdawe
> Jeffrey Morris Pantyfyd Esgerdawe
> Elwyn Williams Tegfryn Alltyblaca

Arwyddwyd y ddogfen hon gan Giraldus Jones, M.E. Williams a J.O. Jones. Gwaetha'r modd, dim ond saith o'r rhai uchod sy'n aros.

Dyma'r hyn a welir yn Llyfr Cofnodion y capel:

> *Hydref 25ain.* Ethol pymtheg o Ymddiriedolwyr. Bu Mr. D. Arthur Evans a Mr. Elias Morgan o Rydcymerau yn cyfrif y pleidleisiau. Gwerthfawrogwn eu cymorth parod gyda'r gwaith pwysig hwn.

Fel y cyfeiriwyd yn y cofnod, etholwyd pymtheg ond deuddeg a gymerodd y swydd, sef y rhai a enwyd. Llofnododd y deuddeg hyn eu henwau ar y weithred gyfreithiol ar brynhawn Sul, Rhagfyr 6ed, 1970.

## FFYNONELLAU'R DYFYNIADAU

Ceir y dyfyniadau a welir yn y bennod hon yn Nogfennau Cyfreithiol y capel. Cedwir hwy'n ddiogel ym Manc y 'National Westminster' yn Llambed.

# IX

# SWYDDOGION ERAILL YR EGLWYS

**Diaconiaid**

Cyfrifid Esgairdawe a Ffaldybrenin yn un eglwys hyd weinidogaeth Rhys Jones. Felly, ni ellir dweud i sicrwydd pa swyddogion a berthynai i'r naill na'r llall. Yn y cyfnod cynnar, 'roedd yna henuriaid. Eu dyletswydd hwy oedd sicrhau disgyblaeth o fewn yr eglwys. Gwaith y diaconiaid oedd gofalu am y tlodion. Dyna'r drefn yn yr eglwysi Annibynnol cynnar. Daeth swydd henuriaid i ben yn fuan a golygai hyn fod mwy o gyfrifoldeb ar ysgwyddau'r diaconiaid. Sylweddolwn fod yr Achos Annibynnol yn Esgairdawe yn mynd yn ôl i'r ail ganrif ar bymtheg, sef 1690, a diddorol yw cofio mai dim ond hanner can mlynedd cyn hynny y sefydlwyd yr eglwys Annibynnol gyntaf yng Nghymru, sef yr eglwys yn Llanfaches, sir Fynwy.

Galwedigaeth yw bod yn ddiacon, – rhoi gwasanaeth, arwain a bugeilio yn ddi-dâl. Dylai diacon feddu ar ymdeimlad o urddas, gan fod yn frwdfrydig ynglŷn â pharhad yr eglwys. Cyflawnodd llawer o ddiaconiaid eu gwaith yn ddiffuant yn yr eglwys hon – cymryd eu tro i rannu'r Cymun; gweinyddu'r Cymun yn absenoldeb y gweinidog; annerch 'gorsedd gras' a chymryd rhan yn gyhoeddus, yn ôl yr angen; gofalu am faterion ariannol a chyflwr yr adeiladau; rhoi arweiniad i'r aelodau eraill; ymweld â'r claf a'r anghenus; cysuro a diddanu'r galarwyr a dangos pryder am bethau ysbrydol. Ni cheir tystiolaeth fod diaconiaid Esgairdawe wedi'u hethol i wasanaethu am gyfnod penodedig, dyweder tair blynedd, a'u hail-ethol pe byddent yn deilwng. Yn hytrach, diaconiaid am oes a fu yma.

Bernir mai yn yr eglwys hon yr addolai'r henuriaid a'r diaconiaid canlynol, rhwng 1690 a 1848, am fod eu cartrefi yn yr ardal:

Daniel Harry, Esgairowen . . . ; Evan Rees, Cwmcanol; Morgan William, Rhydlydan yr hwn a fu yn aelod am 76 mlynedd, ac yn ddiacon am 70 mlynedd; Shon Thomas Dafydd Shon, Rhydfallen; William Morgan, Rhydlydan.[1]

Roedd David Morgan a Thomas Dafydd Morgan, Storom uchaf; Evan Davies, Storom isaf; Daniel Abel, Tyhowell a John Jones, Tywilym (tad Evan Jones, Crug-y-bar) hefyd yn eu plith.

Prin yw'r cofnodion sy'n rhoi enwau diaconiaid yr eglwys, ond credir bod Thomas Williams, Blaenceiment; Thomas Jones, Maesyrhenarth a John Morgans, Gwar-coed yn ddiaconiaid yn eu cyfnod. Ni wyddom pa bryd y dewiswyd diaconiaid newydd wedi symud i'r capel presennol ym 1844, ond gwyddom i hynny ddigwydd yn ystod gweinidogaeth Henry Jones, rhwng 1859 a 1899. Yn ôl yr arferiad y pryd hwnnw, y gweinidog oedd yn dewis ei ddiaconiaid, a dyma enwau pump a ddewiswyd:

John Jones, Cae-mawr
Evan Jones, Cwmtrebeddau
John Morgan, Tan-ffordd
Abel Thomas, Bryndifyr
Thomas Thomas, Maesteile

Wedi urddo James Jones yn weinidog ym 1900 y rhoddwyd pleidlais i bob aelod wrth ddewis swyddogion neu benderfynu materion pwysig eraill. Y tro cyntaf y gweithredwyd yr arferiad oedd ar Dachwedd 7fed, 1930, pan etholwyd saith diacon. Tri o'r rhai uchod oedd ar ôl, sef John Morgan, Abel Thomas a Thomas Thomas. Ofnai'r tri mai methiant fyddai'r drefn newydd, ond bu'r canlyniad yn dderbyniol. Diwrnod y Cyrddau Diolchgarwch ydoedd a'r pregethwr gwadd, y Parchedig Ben Davies, Llandeilo a chyfreithiwr o Lambed a fu'n cyfri'r pleidleisiau, – tystiai'r blaenaf na losgodd gymaint o ddiaconiaid erioed â phan daflodd y papurau i'r tân wedi'u rhifo yn y Llofft Fach! Dyma'r rhai a etholwyd:

William Jones, Pen-rhiw
James Morgan, Rhydfallen ganol
Joshua Jones, Glantawe
Thomas Jones, Gwar-coed
Thomas L. Jones, Llundain
William M. Jones, Cwmdawe
Tom Elias Davies, Esgerwen

Erbyn dechrau 1956, dim ond pedwar diacon oedd yn aros. Ymadawodd Thomas Jones, Gwar-coed â'r ardal ac nid oedd

ond y rhain ar ôl, – Joshua Jones, Thomas L. Jones, William M. Jones a Tom Elias Davies. Felly, etholwyd saith ychwanegol ar Ebrill 15fed, 1956, –

Thomas J. Davies, Esger-wen
George George, Bryndafydd
Thomas Griffiths, Pen-rhiw
Ivor I. Hughes, Pyllau
David L. Jones, Blaengofiarth
Evan T. Jones, Bryndifyr
Jeffrey T. Morris, Pantfyd

Ymhen pythefnos, rhoddwyd cynghorion iddynt gan y Parchedig Giraldus Jones a'u derbyn i'r swydd. Cyn pen deng mlynedd ar hugain, symudwyd hwy ymlaen i'r anwel ac eithrio David L. Jones a Jeffrey Morris, ac ar Chwefror 3ydd, 1985 etholwyd pump arall:

David Thomas Davies, Esger-wen
Mary Olwen Davies, Maesteile
Meurig Augustus Evans, Llundain
David John Price, Cae-mawr
Mary Eunice Williams, Tegfryn

Ar Fai 26ain, ordeiniwyd hwy gan y gweinidog, y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor.

Fel ymhob cymdeithas neu fudiad arall, mae'n ofynnol i eglwys gael ysgrifennydd a thrysorydd. Fe'u gelwir yn swyddogion. Mewn ambell eglwys, yn enwedig lle ceir nifer fawr o aelodau, bydd gwaith yr ysgrifennydd yn cael ei rannu rhwng dau neu dri o'r aelodau. Ceir ysgrifennydd cyffredinol, ysgrifennydd ariannol, ysgrifennydd gohebol ac ysgrifennydd cenhadol. Mae'r angenrheidiau hyn yn amrywio o eglwys i eglwys. Yr arferiad yn Esgairdawe ar hyd y blynyddoedd yw ymddiried yr holl waith ysgrifenyddol i un aelod yn unig.

Rhan o ddyletswyddau'r ysgrifennydd yw cadw rhestr ofalus a chywir o enwau'r aelodau, gan nodi'r cyfnewidiadau'n gyson. Pan fydd angen cynnal Cwrdd Eglwys, rhaid paratoi'r agenda a chadw cofnodion manwl o bopeth a drafodir yno. Gwaith yr ysgrifennydd hefyd yw cysylltu â gweinidogion neu leygwyr er mwyn gwneud trefniadau i 'lanw'r pulpud' o Sul i Sul. Os oes gweinidog sefydlog yn yr eglwys, nid oes angen mwy na llanw'r Suliau rhydd a gaiff yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal, bydd galw ar yr ysgrifennydd i ohebu â gwahanol gymdeithasau, gan gynnwys y Cyfundeb a'r Undeb, ac i sylweddoli'r

pwysigrwydd o gydweithio ag eglwysi'r enwad yn ogystal ag eglwysi eraill y fro, o wahanol enwadau. Nid oes diben i eglwys sy'n cadw'i hun yn hollol annibynnol. Mae angen iddi sylweddoli ei bod yn rhan annatod o'r eglwys fydeang. Dyma enwau rhai o ysgrifenyddion Esgairdawe:

| | |
|---|---|
| John Jones, Caemawr | Cyn 1890 – 1924 |
| Abel Thomas, Bryndifyr | 1924 – 1935 |
| Thomas Lewis Jones, Llundain | 1935 – 1955 |
| Mary Eunice George, Bryndafydd | 1956 – 1989 |
| Ann Thomas, Llys Cothi | 1989 – |

Cyfrifoldeb y trysorydd yw gofalu am ochr ariannol y gweithgareddau. Mae'n ofynnol ei fod yn weithiwr gonest a chyfrifol er mwyn iddo fedru cadw cofnodion manwl a chywir o dderbyniadau a thaliadau'r eglwys. Rhaid iddo fwrw golwg dros y sefyllfa ariannol yn achlysurol, a thynnu sylw ei gydaelodau pan fydd angen am gyfraniadau ychwanegol at y gronfa. Mae hyn yn codi'n arbennig pan fydd galw am atgyweirio neu drwsio'r adeiladau.

Nid gwiw i eglwys feddwl am ei hanghenion ei hun yn unig chwaith. Rhaid i'r aelodau fod yn barod i gynorthwyo cyd-ddyn pa le bynnag y bo. Ambell dro, daw galw am gymorth yn hollol ddirybudd a dyletswydd yr eglwysi yw estyn cydymdeimlad a help i'r rhai sy'n gorfod wynebu cyfyngderau. Ceir daeargrynfâu a dioddefaint enbyd, hyd yn oed yn ein dyddiau ni. I gwrdd â'r gofynion hyn, ceir mudiadau fel Cymorth Cristnogol, sy'n hybu a derbyn cyfraniadau'r eglwysi tuag at anffodusion ein byd.

Gyda chyfleusterau teithio ein hoes, daeth gwledydd pellennig y ddaear yn nes atom, a thrwy gyfrwng radio a theledu cawn gyfle i adnabod trigolion y byd yn well. O ganlyniad, daethom yn barotach i ddwyn beichiau ein gilydd a theimlo ein bod yn gydaelodau o'r cyfanfyd. Felly, dylai eglwys adlewyrchu ei gofal a'i phryder am bethau amgenach nag adeiladau, pa mor bwysig bynnag y bo rheiny.

Rhai o drysoryddion Esgairdawe:

| | |
|---|---|
| Thomas Thomas, Maesteile | 1878 – 1941 |
| Thomas Elias Davies, Esgerwen | 1941 – 19 ? |
| Dafydd Jones, Tŷ'r Capel | 19 ? – 1956 |
| Ivor Isaac Hughes, Pyllau | 1956 – 1970 |
| David Lewis Jones, Blaengofiarth | 1971 – |

[1] *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, Thomas Rees a John Thomas, 1873, t.557.

# X

# YSTADEGAU A FFEITHIAU DIDDOROL

Yn y bennod hon, rhoir sylw i'r ystadegau amrywiol a ddaeth i'r amlwg ynglŷn â'r Achos Annibynnol hwn. Mae'n syndod bod cymaint o ffeithiau pwysig wedi dod i'r fei. Dengys hyn fod rhywrai, hyd yn oed yn y ganrif ddiwethaf, yn cymryd diddordeb mewn cadw cofnodion er mwyn eu trosglwyddo i'r cenedlaethau a ddeuai ar eu hôl. Eto i gyd, canfyddwn fod prinder dybryd o wybodaeth mewn ambell gyfnod. Ysywaeth, mae hynny'n wir am rai degawdau o'r ganrif hon, pryd na thrafferthwyd cadw 'copinod' o'r digwyddiadau, neu o bosibl, na ofalwyd eu diogelu. Ni ellir dirnad maint y golled a olyga hynny i'r sawl a garai allu bod wedi lloffa yn rhywle am ddeunydd diddorol a gwerthfawr.

Yng Nghofrestr yr Eglwys, rhwng 1827 a 1878, ceir enwau'r aelodau ynghyd â'u cyfraniadau. Dyma dabl sy'n dangos nifer yr aelodau yn ystod rhai o'r blynyddoedd hynny:

| | |
|---|---|
| 1827 - 78 | 1855 - 91 |
| 1830 - 120 | 1860 - 161 |
| 1835 - 102 | 1865 - 111 |
| 1840 - 93 | 1870 - 95 |
| 1845 - 112 | 1875 - 122 |
| 1850 - 98 | 1878 - 136 |

Addolent yn yr Hen Dŷ Cwrdd o'r flwyddyn 1756 hyd 1844. Felly, fel mater o ddiddordeb, dyma enwau'r rhai oedd ar y rhestr yno ym 1828, a rhoi'r enwau yn y ffurf y digwyddant:

> "This Book belongs to the Church of Christ, Meeting at Esgairdawe.
> This list was made June 21, 1828."
> Elizabeth widow Garthlwyd
> Mary Morgan Rhydlydan
> Jemimah Rodrick Esgerdawe
> Eleanor Morgan Groes
> John Griffiths Galltfydur
> Margaret Ditto
> Mary Morgan Maesteile

Mary Pandu
W Williams Tredomen
Letice Ditto
Evan David Storom
Eleanor Ditto
Letice Davies Rhydfallen
Elizabeth Morgan Wenallt
Elizabeth Ditto
Margaret Brynllefrith
Alexander Jones
Mary Ditto
Elizabeth Maesrhenarth
Mary Gelliwrol
Daniel Ditto
John Morgan Tailor
Rachel his daughter
Martha Thomas Elis Cottage
David Morgan Storomucha
Rachel Ditto
Thomas Ditto
Gwen Morgan Ditto
Thomas Davies Glanyrafon
Dinah his wife
Rachel Thomas Capeli
Ann Williams Lampeter
Jane David Thomas Walter
Martha Price Pantyfedwen
Martha Rees Ditto
Stephen Thomas
Mary his wife
Margaret Brynrysgol
Thomas Evan Cottage
Gwen Evan Ditto
Ann Leigh Esgerwen
Mary Parry Tyllwyd
Mary Thomas Ditto
Esther Davies
Daniel Abel
Sarah Abel
Elizabeth George Penybont bren
Mary Jones Pantyfid
John Jones Caemawr
Eleanor Ditto
Charles Davies Maesygwiail
Ann Davies Ditto
Abel Thomas Shoemaker
Martha Thomas his wife
William Jones Felinfach